

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi a glanhau, gwasanaethu, archwilio a chynnal **gwasanaethau a systemau** simneiau domestig neu fasnachol ac offer o hyd at 50kW, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, yn unol â'r **ardal waith a gweithdrefnau'r sefydliad** sy'n cyfateb i'r **dogfennau a'r manylebau** statudol a deddfwriaethol presennol neu'n rhagori arnynt

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau, gwasanaethu ac archwilio pob math o offer gydag allbwn o hyd at 50kW sy'n gweithredu o dan wasgedd ffliw negyddol a'r rhai heb systemau rheoli electronig mewnol ac mae'n ymwneud ag archwilio pob system ffliw nad yw wedi'i gwneud o blastig

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol Simneiau a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Mae modd gweld disgrifiad o'r termau sydd mewn testun trwm yn y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon yn yr Eirfa, y dylid ei defnyddio fel pwynt cyfeirio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Dehongli gwybodaeth

P1 dehongli'r wybodaeth am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei bod yn berthnasol ar gyfer y canlynol:

- **dogfennau a manylebau**
- lluniadau
- rhestrau
- gwybodaeth y contract
- arolygon cyn gosod
- asesiadau risg
- datganiadau dull

Arferion gwaith diogel

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau swyddogol a **gweithdrefnau'r sefydliad** i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol am y canlynol:

- dulliau gweithio
- defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel, sy'n berthnasol i'r dasg sy'n cael ei chyflawni a'r amgylchedd gwaith
- defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel
- defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd gan gynnwys iechyd meddwl
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â llwch silica, morterau a deunyddiau selio

Dewis adnoddau

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd angenrheidiol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio:

- deunyddiau, cydrannau a gosodiadau
- offer a chyfarpar

Lleihau'r risg o ddifrod

P4 cydymffurfio â **gweithdrefnau'r sefydliad** i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas drwy:

- diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod

- cadw'r **ardal waith** yn ddiogel, yn glir ac yn daclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol ac arferion gorau'r diwydiant

Bodloni manyleb y contract

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion drwy'r canlynol:

- dangos sgiliau gwaith i archwilio, gwasanaethu, cynnal, glanhau, profi, lleoli a diogelu
- defnyddio a chynnal a chadw **offer** llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol
- paratoi ar gyfer a chynnal gwaith archwilio mewnol ac allanol, gwasanaethu a glanhau ffliwiau ac offer domestig a masnachol o hyd at 50kW
- rhoi cyngor i ddefnyddwyr am ba danwyddau i'w defnyddio, defnyddio **offer** yn effeithlon a phwysigrwydd gwasanaethu a chynnal a chadw'n rheolaidd
- nodi system awyru addas i gefnogi perfformiad cywir
- rhoi gwybod i'r parti priodol am unrhyw ddiffygion a nodir
- cynnal yr holl brofion addas i sicrhau'r swyddogaeth a'r hyllogi bwriadedig

Amser a neilltuwyd

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd yn unol â **gweithdrefnau'r sefydliad**, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

P1 Dehongli gwybodaeth

K1 pam mae **gweithdrefnau'r sefydliad** wedi cael eu datblygu i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith

K2 mathau o wybodaeth, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli mewn perthynas â:

- **dogfennau a manylebau**
- lluniadau
- rhestrau
- gwybodaeth y contract
- asesiadau risg
- datganiadau dull

K3 yr amrywiaeth o wasanaethau, offer a systemau digidol perthnasol a sut maent yn cael eu defnyddio

K4 pwysigrwydd **gweithdrefnau'r sefydliad** o ran datrys problemau â'r wybodaeth a pham mae'n bwysig eu dilyn

P2 Arferion gwaith diogel

K5 gwybodaeth ar gyfer deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso

K6 y mathau o gyfarpar diffodd tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio o ran dŵr, CO2, ewyn, powdr

K7 sut dylid ymateb i argyfyngau a rhoi gwybod amdanynt yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol o ran y canlynol:

- tanau, gollyngiadau ac anafiadau
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol
- nodi deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a rhoi gwybod amdanynt

K8 gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol, mewn perthynas â'r canlynol:

- gweithiwr

- safle
- gweithle
- cerbydau
- cwmni
- cwsmer
- y cyhoedd
- galwedigaethau eraill yn y gweithle

K9 sut mae rhoi gwybod am risgiau a pheryglon a nodwyd gan y canlynol:

- dulliau gweithio
- asesiad risg
- asesiad personol
- gwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

K10 y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K11 pam, pryd a sut dylid defnyddio'r cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch a nodir gan egwyddorion atal mewn perthynas â'r canlynol:

- mesurau diogelu ar y cyd
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu anadlol (RPE)
- awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth (LEV)

K12 sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol wrth ddelio â damweiniau posibl, peryglon i iechyd a'r amgylchedd o ran gweithio:

- yn y gweithle
- dan lefel y ddaear
- mewn mannau cyfyng
- mewn mannau uchel
- gydag offer a chyfarpar
- gyda deunyddiau a sylweddau
- wrth symud a storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario a defnyddio cyfarpar codi

mecanyddol

P3 Dewis adnoddau

K13 pam mae nodweddion, ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau yn bwysig, a sut dylid cywiro diffygion

K14 **gweithdrefnau'r sefydliad** ar gyfer dewis adnoddau, pam maen nhw wedi cael eu datblygu a sut mae eu defnyddio

K15 sut mae cadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n cydymffurfio â'r fanyleb

K16 sut dylid defnyddio'r adnoddau a sut mae rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ynglŷn â'r canlynol:

- cyfarpar a sgriniau diogelu
- cydrannau newydd
- deunyddiau glanhau
- sment tân
- deunydd selio ac adlynion
- offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar profi ac archwilio

K17 sut mae nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gweithio a sut mae goresgyn y rhain

K18 sut mae cyfrifo niferoedd, hyd ac arwynebedd

P4 Lleihau'r risg o ddifrod

K19 sut mae diogelu gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod a phwrpas diogelu rhag gweithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw a sut mae lleihau difrod i adeiledd presennol yr adeilad

K20 pam a sut mae'n rhaid gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â'r canlynol:

- cyfrifoldebau amgylcheddol
- **gweithdrefnau'r sefydliad**
- gwybodaeth gweithgynhyrchwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol

K21 pam mae'n bwysig cynnal **ardal waith** ddiogel, glir a thaclus

P5 Bodloni manyleb y contract

K22 sut mae'r dulliau gweithio i fodloni'r fanyleb yn cael eu cyflawni a sut mae problemau'n cael eu nodi a'u hadrodd drwy ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol sy'n ymwneud â'r canlynol:

- sut mae archwilio, gwasanaethu, cynnal a pharatoi i lanhau ffliwiau ac **offer** domestig a masnachol hyd at 50kW
- pam ei bod yn bwysig rhoi cyngor i ddefnyddwyr am y tanwyddau i'w defnyddio a'r dulliau storio cywir, defnyddio **offer** yn effeithlon a phwysigrwydd gwasanaethu a chynnal a chadw'n rheolaidd
- pam a sut mae'n bwysig amddiffyn ardaloedd o gwmpas y gwaith
- sut mae nodi strwythurau simneiau ar gyfer pob math o danwydd
- sut mae nodi diffygion mewn simneiau
- sut mae profi strwythurau simneiau
- pam ei bod yn bwysig gwirio, yn unol â chyfarwyddiadau statudol a chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd, am rybudd ynghylch carbon monocsid yn cael ei ryddhau
- pwysigrwydd dynodiad y ffliw a sut mae gwneud yn siŵr bod y ffliw yn gydnaws â'r darn o offer a sut bwriedir ei ddefnyddio
- pam ei bod yn bwysig sicrhau bod mynediad ar gael at ddata'r gosodiad bob amser
- pam ei bod yn bwysig cadw cofnodion y cwmni
- pam ei bod yn bwysig gofyn am gyngor a sgiliau arbenigol wrth ynysu gwasanaethau, gan gynnwys trydan, nwy, olew, cyfathrebu a dŵr, ond nid y rhain yn unig
- perthnasedd asesiad o arwyddocâd a sut i adnabod gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladwaith traddodiadol, adeiladau anodd eu trin ac arwyddocâd hanesyddol
- sut mae gweithio'n ddiogel gyda pheiriannau ac offer, o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt
- sut i ddefnyddio **offer** llaw, offer pŵer a chyfarpar
- sut mae gweithio mewn mannau uchel gan ddefnyddio cyfarpar mynediad
- sut a pham mae angen i'r gweithiwr sicrhau bod yr offer llaw a'r offer pŵer a'r cyfarpar ategol yn cael eu cynnal a'u cadw

K23 egwyddorion hylosgi, gan gynnwys:

- ansawdd digonol y tanwydd
- tymheredd hylosgi
- digon o aer hylosgi

- effaith perfformiad hylogsi ar allyriadau

K24 egwyddorion drafft twll simnai a'r dyluniad gan gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- awyru mecanyddol
- drafft fflw naturiol
- drafft fflw wedi'i orfodi
- digon o ddrafft simnai i wacáu cynnyrch hylogsi
- uchder effeithiol i'r fflw
- arwynebedd effeithiol i'r fflw
- effaith plygiadau a chyfyngiadau
- effaith lleoliad allfa'r fflw
- y rhyngweithio â gorchudd yr adeilad a'r topograffi
- effeithiau meteorolegol

K25 pwysigrwydd gwaith tîm a chyfathrebu, **gweithdrefnau'r sefydliad** o ran ymddygiad ar y safle a sut mae rhoi gwybod am ymddygiad amhriodol ar y safle

K26 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â glanhau, gwasanaethu ac archwilio fflwiau ac offer

P6 Amser a neilltuwyd

K27 y rhaglen ar gyfer gwneud y gwaith, gan gynnwys yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

K28 y mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd a amcangyfrifwyd, a **gweithdrefnau'r sefydliad** ar gyfer rhoi gwybod am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith.

Geirfa

Gweithdrefnau'r sefydliad

Y Sefydliad

Yswiriant - atebolrwydd cyflogwyr, cynnyrch a chyhoeddus, indemniad proffesiynol

Dogfennau'r cwmni

contract gwaith, cynllun rheoli diogelwch, dylunio a rheoli adeiladu, polisi amgylcheddol, gweithdrefn gwyno, polisi diogelwch a phreifatrwydd gwybodaeth, strwythur rheoli

Ardal waith

Yr ardal lle bydd y cyfarpar yn cael eu gosod a'r holl ardaloedd y bydd y gwaith yn effeithio arnynt, gan gynnwys nodweddion topograffig ac amodau meteorolegol

Gwasanaethau a systemau

Systemau simneiau a ffliwiau, offer, systemau awyru a chyfleustodau priodol

Dogfennau a manylebau

Cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr ar gyfer yr holl gyfarpar sy'n rhan o'r gwaith cynlluniau'r pensaer a dogfennau penodol i'r safle

rheolau a rheoliadau adeiladu lleol

Deddfwriaeth waliau cydrannol

Deddf Aer Glân

Deddf yr Amgylchedd

Parthau rheoli mwg

Datblygu a ganiateir

Ardaloedd cadwraeth

Statws treftadaeth

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

anghenion penodol tanysgrifenwyr yswiriant

Rheoliadau adeiladu yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig ADJ ond hefyd ADA, ADB, ADF, ADL ac AD7

Llawlyfr Technegol Safonau Adeiladu yn yr Alban

Llyfrynnau Technegol yng Ngogledd Iwerddon, yn enwedig B, D, E, F1, F2, K ac L BSEs, yn enwedig 8303, 15287, 1856, 16510, 1251, 3376, 4834, 12815, 13229, 13240, 15250

Noder: Mae'n bosibl y bydd dogfennau technegol a BSEN yn cael eu tynnu'n ôl neu eu disodli yn ystod rhaglenni adolygu. Felly mae'n bwysig gwirio pa mor gyfredol a dilys yw pob dogfen o'r fath i sicrhau eich bod yn cyfeirio at y fersiwn gywir.

Offer

Offer llosgi tanwydd solet gydag allbwn o hyd at 50kW gan gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- tanau agored
- gwresogyddion ystafelloedd sy'n sefyll ar eu pen eu hunain
- gwresogyddion ystafelloedd wedi'u mewnosod
- poptai sy'n sefyll ar eu pen eu hunain
- boeleri annibynnol
- stofiau sy'n rhyddhau gwres yn araf

Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	31 Rhag 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Rhag 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR56
Galwedigaethau perthnasol	Crefftau Adeiladu
Cyfes/Set	Galwedigaethau Simneiau (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Simneiau; Simnai ddomestig; Simnai ddiwydiannol; Sment tân; Systemau ynni